**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Gorffennaf 2024

Annwyl Peredur

I gefnogi'r gwaith o lunio blaengynlluniau cyllid ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol, cytunais i ysgrifennu bob blwyddyn ar ddiwedd tymor yr haf i nodi amrywiaeth o ffactorau i helpu i gynllunio cyllidebau yn y dyfodol, gan gynnwys asesiad gorau'r Llywodraeth o lefel y cyllid a fydd ar gael yn y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, ysgrifennais atoch yn dilyn adolygiad o'r datganiad o egwyddorion ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol ar 14 Tachwedd y llynedd. Nododd y llythyr hwnnw y byddwn yn ystyried a oes modd darparu gwybodaeth ychwanegol tymor hwy gan edrych ar wahanol senarios ariannu posibl yn y dyfodol. Mae'r llythyr hwn yn nodi'r wybodaeth sydd ar gael ac yn cyfeirio at amcanestyniadau gwario a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr y llynedd.

Yn gyntaf, mae'n werth nodi gwybodaeth ddiweddar am gyllid cyhoeddus y DU. Benthycodd y sector cyhoeddus £122 biliwn yn 2023-24. Roedd hyn £6 biliwn yn llai nag a fenthyciwyd yn 2022-23, ond £8 biliwn yn fwy na'r hyn a ragwelwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ym mis Mawrth 2024. Mae rhagolwg OBR yn dangos y bydd benthyca yn gostwng i £87 biliwn yn 2024-25 ac wedyn y bydd gostyngiad ysgafnach dros y blynyddoedd i ddod. Rhagwelwyd y byddai mandad cyllidol Llywodraeth flaenorol y DU o ostyngiad yn nyled y sector cyhoeddus fel canran o GDP erbyn 2028-29 yn cael ei fodloni, ond dim ond o drwch blewyn.

Gan droi at y rhagolygon ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru, dylwn nodi bod hwn yn gyfnod arbennig o anodd i ddarparu asesiad. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw setliad ariannu y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol bresennol ac nid yw Gweinyddiaeth newydd y DU wedi nodi ei chynlluniau cyllidol ei hun eto. Byddwn yn gwybod mwy yn yr Hydref. Er hynny, fel y nododd Canghellor y Trysorlys, mae'n glir ein bod yn wynebu rhagolwg cyllidol gwirioneddol anodd. Mae'r Canghellor wedi gofyn i Drysorlys EF lunio asesiad o'r etifeddiaeth wario a gaiff ei gyflwyno i Senedd y DU cyn toriad yr Haf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nodwyd cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn y Gyllideb Derfynol ym mis Chwefror eleni, gyda dyraniadau'r Prif Grwpiau Gwariant yn cael eu hailddatgan ym mis Mehefin. Mae'n werth nodi nad yw setliad Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ar yr un raddfa â'r sioc chwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf. Er gwaethaf rhywfaint o godiadau yn ddiweddar, mae'r setliad eleni yn dal yn werth hyd at £700 miliwn yn llai mewn termau real na phan gafodd ei bennu yn yr Adolygiad o Wariant 2021.

Ynghyd â'r Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 roedd Adroddiad y Prif Economegydd a oedd yn cynnwys amcanestyniad ar gyfer cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru am y blynyddoedd y tu hwnt i 2024-25 yn siart 32. Roedd hyn yn seiliedig ar ragdybiaethau gwario blaenorol Llywodraeth y DU ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf, fel y'u defnyddiwyd yn rhagolygon OBR fis Tachwedd diwethaf (ac a arhosodd yr un fath ar gyfer y rhagolygon OBR diweddaraf ym mis Mawrth eleni). Roedd y rhagdybiaethau hyn yn nodi y byddai gwariant adnoddau dewisol yn cynyddu 1% y flwyddyn mewn termau real ac y byddai gwariant cyfalaf yn wastad yn fras o ran arian parod.

Roedd cyfuno'r rhagdybiaeth adnoddau â rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru a'r amcanestyniadau poblogaeth yn awgrymu y byddai cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru yn tyfu llai na 0.5% y flwyddyn i bob person mewn termau real rhwng 2024-25 a 2028-29. Mae amcanestyniadau mwy diweddar o'r boblogaeth yn dangos twf cyflymach, felly byddai'n awgrymu twf is byth mewn gwariant fesul person gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau hyn. Ar yr ochr gyfalaf, byddai rhagdybiaeth flaenorol Llywodraeth y DU o arian parod gwastad yn golygu y byddai cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru yn disgyn mewn termau real. Roedd Adroddiad y Prif Economegydd hefyd yn cynnwys amcanestyniadau cyllidebol tymor hwy o dan dri senario gwahanol; mae'r rhain yn cael eu disgrifio ar dudalennau 61-62.

Gan droi at brisiau a chyflogau, mae rhagolwg OBR ar gyfer mis Mawrth yn dangos y bydd y datchwyddydd GDP yn cynyddu 0.8% yn y flwyddyn ariannol bresennol, 1.3% y flwyddyn nesaf, ac yna 1.7% i 1.9% fesul blwyddyn wedi hynny. Mae'r un rhagolwg ar gyfer mis Mawrth yn dangos bod y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn cynyddu 1.6% yn 2024-25 a 2025-26, gan godi i 2.0% erbyn 2028-29. Mae disgwyl i enillion cyfartalog y DU gynyddu 3.1% yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a 1.9% y flwyddyn nesaf.

I grynhoi, nid oes gennym unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd am y rhagolygon cyllidebol y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol bresennol, ond rydym yn cydnabod y sefyllfa gyllidol anodd iawn y mae Llywodraeth newydd y DU yn ei hwynebu. Mae'r rhagdybiaethau gwariant cyhoeddus a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU yn awgrymu y bydd cyllidebau'n dynn iawn ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office